# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
|---|---|
| **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** | **Claire Morris** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.15 | 0300 200 6355 |
| | SeneddIechyd@cynulliad.cymru |

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.30)

## 2 Cymru Iachach: Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

(9.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 12)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Ifan Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Arloesi, Technoleg, Strategaeth, Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithsol, Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

Papur 1

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

### 3.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ysgolion bro - 3 Gorffennaf 2018

(Tudalen 13)

Papur 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer eitemau 1 a 2 ar 19 Gorffennaf

(11.00)

## 5 Cymru Iachach: Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: trafod y dystiolaeth

(11.00 - 11.10)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cymru Iachach, Cynllun iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru

## *Papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 11 Gorffennaf 2018*

### Cefndir

1. Mae'r heriau sy'n wynebu'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn dra hysbys. Mae'r gwasanaethau dan bwysau mawr yn bennaf oherwydd y galw cynyddol a mwy cymhleth amdanynt, sy'n cael ei ysgogi gan newidiadau demograffig a ffactorau'n gysylltiedig â ffordd o fyw, a'r datblygiadau mewn meddyginiaeth a thechnolegau meddygol. Mae'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael trafferth i addasu, er enghraifft oherwydd agweddau hen ffasiwn sy'n anodd eu newid, ac o ganlyniad i heriau i'r gweithlu sy'n llesteirio capasiti a galluogrwydd. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn unigryw i Gymru.

2. Comisiynwyd Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gynnar yn 2017 i ymateb i'r heriau hyn, gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Cylch gorchwyl yr Adolygiad oedd cynnig argymhellion ar sut i ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd a gofal i ymdopi â'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018, yn gwneud deg argymhelliad lefel uchel.

3. Wrth groesawu'r adroddiad, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adroddiad, ac yn ymateb ar ffurf cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i'w gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Cyhoeddwyd y cynllun hwnnw, *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol,* ar 11 Gorffennaf.

### Datblygu'r Cynllun drwy Ymgysylltu a Chydgynhyrchu

*Ymgysylltu Allanol*

4. Yn ôl panel yr Adolygiad Seneddol, dylai ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion gael ei ddatblygu gyda mewnbwn ystyrlon gan ei phartneriaid a'r cyhoedd. Ar sail yr argymhelliad hwn, gweithiodd Conffederasiwn GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y cyd, ac ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, i lunio cynnwys y cynllun. Rhoddodd nifer o weithgorau, a gadeiriwyd gan uwch arweinyddion iechyd a gofal cymdeithasol, gymorth i nodi'r blaenoriaethau a datblygu'r cynnwys yn y meysydd canlynol:

- gweledigaeth ynglŷn â rhoi profiad gwahanol i bobl o wasanaethau yn y dyfodol;
- egwyddorion dylunio cenedlaethol 'unwaith i Gymru';
- llais dinasyddion;
- digidol;
- arweinyddiaeth;
- datblygu'r gweithlu;
- llywodraethu gan gynnwys symleiddio'r dirwedd cynllunio: ac
- ariannu modelau gofal lleol di-dor.

5. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy pwysig yn Stadiwm y Principality ym mis Mawrth, wedi'i drefnu gan Gonffederasiwn GIG Cymru a chymerodd dros 200 o uwch weithwyr o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol ran ynddo. O ystyried pwysigrwydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol fel y sector rhanddeiliaid allweddol, gwnaed gwaith ymgysylltu penodol â llawer o'r colegau brenhinol, undebau llafur a chyrff cynrychioliadol proffesiynol eraill, drwy gyfarfodydd un-i-un a mynychu cyfarfodydd grŵp sy'n dod â gofalwyr iechyd proffesiynol ynghyd.

6. Ymgysylltwyd hefyd ag arweinwyr lleol ar lefel wleidyddol ac uwch swyddogion drwy gyfres o gyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, cadeiryddion a phrif weithredwyr byrddau iechyd, arweinwyr awdurdodau lleol ac aelodau'r cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau cymdeithasol ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru. Gwahoddwyd pob partneriaeth i gyflwyno awgrymiadau am y materion yr hoffent weld y cynllun yn mynd i'r afael â hwy, ac ystyriwyd eu hymatebion fel rhan o'r dystiolaeth a fu o gymorth i nodi'r meysydd i weithredu arnynt sy'n rhan o'r cynllun.

7. Cafodd ymatebion y gwrthbleidiau i adroddiad yr Adolygiad Seneddol eu monitro hefyd fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth i sicrhau bod safbwyntiau ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn cael eu hystyried.

8. Yn bwysicach na dim, efallai, casglwyd safbwyntiau cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ehangach yng Nghymru drwy gysylltu â grwpiau cynrychioliadol, comisiynwyr statudol, a phaneli dinasyddion.

*Ymgysylltu Mewnol*

9. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r gwaith rhyngadrannol sy'n mynd rhagddo yn sicrhau cysylltiad rhwng y timau polisi i gefnogi amcanion strategol *Ffyniant i Bawb.* Wrth ddatblygu *Cymru Iachach* bu ymgysylltiad agos rhwng swyddogion y gwahanol adrannau sy'n rhan o'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn ehangach ar draws adrannau polisi Llywodraeth Cymru, ar lefel Weinidogol yn ogystal â lefel swyddogion.

10. Mae *Cymru Iachach* yn arddel dull gweithredu system gyfan ar iechyd a dull gweithredu cyfannol ar lesiant. Yn hynny o beth, mae'n cydnabod pwysigrwydd yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant y tu allan i'r gwasanaethau gofal iechyd traddodiadol. Er enghraifft, mae cysylltiad clos rhwng tai a gofal cymdeithasol, rhwng addysg a hybu iechyd, a rhwng amddifadedd cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd. Mae'r cynllun felly yn cynnwys cyfeiriadau at ystod o ymrwymiadau ehangach ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys 'iechyd ym mhob polisi', gan gynnwys:

- mwy o ymgysylltu rhwng sefydliadau tai a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- ehangu'r *Rhaglen Ysgolion Iach* drwy gynnwys Iechyd a Llesiant fel un o'r chwe maes yn y cwricwlwm cenedlaethol newydd;
- annog cyflogwyr i gefnogi llesiant eu staff drwy'r *Contract Economaidd* ac i gymryd camau pellach i gefnogi sector gofal cymdeithasol cynaliadwy fel rhan o'r economi sylfaenol yn ein *Cynllun Gweithredu Economaidd*; a,

- cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth o ansawdd da o ran hybu a chynnal iechyd a llesiant unigolion yn ein *Cynllun Cyflogadwyedd*, ac integreiddio'r polisi iechyd a chyflogadwyedd ymhellach drwy fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig y GIG.

## ***Cymru Iachach*** **- Strwythur, Dull Gweithredu ac Uchelgeisiau'r Cynllun**

11. Mae'r cynllun wedi'i rannu i dair prif adran: *Ein gweledigaeth at y dyfodol*; *Sut y byddwn yn sicrhau newid;* a *Sicrhau bod ein system yn barod at y dyfodol*. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phrif argymhellion yr Adolygiad Seneddol, ac, yn ehangach, yn gosod cyfres o 40 o gamau gweithredu i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf er mwyn sbarduno'r trawsnewid angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu ymateb i heriau a chyfleoedd y dyfodol.

*Ein gweledigaeth at y dyfodol*

12. O ystyried y pwys sylfaenol a roddir ar wasanaethau 'di-dor' yn yr Adolygiad Seneddol, mae *Cymru Iachach* yn gynllun unigol ar gyfer iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol. Mae'r adran gyntaf yn cychwyn drwy amlinellu gweledigaeth glir a hirdymor o drefn 'system gyfan' ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar lesiant ac atal salwch, system a fydd yn cefnogi ac yn rhagweld anghenion iechyd ac yn lleihau effaith iechyd gwael.
13. Mae'r drefn system gyfan hon yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus, ac ar y cysylltiadau gwaith agos ac effeithlon sydd gennym yng Nghymru, i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant drwy gydol bywyd. Rhoddir mwy o bwyslais ar atal salwch a galluogi unigolion i reoli eu llesiant eu hunain, gyda chymorth yn cael ei ddarparu yn ôl y galw gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn cael eu darparu'n nes at y cartref yn hytrach nag yn yr ysbytai, ac yn gwneud defnydd o'r technolegau diweddaraf.

*Sut y byddwn yn sicrhau newid*

14. Mae ail brif adran y cynllun yn amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi darparwyr gwasanaeth i wireddu'r weledigaeth. Mae'r rhan hon o'r cynllun yn cychwyn drwy gadarnhau, fel yr argymhellir yn yr Adolygiad Seneddol, bod pedair thema'r Nod Pedwarplyg (gwella iechyd a llesiant y boblogaeth; gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol; a gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy) yn cael eu mabwysiadu fel yr amcanion strategol craidd i werthuso trawsnewid a llwyddiant yn y dyfodol yn eu herbyn. Mae'r deg egwyddor cynllunio, sy'n disgrifio'r nodweddion y bydd disgwyl i'r modelau gwasanaeth eu harddangos yn y dyfodol, hefyd yn cael eu cynnwys i lywio'r broses drawsnewid ac i flaenoriaethu cymorth ar gyfer newid.

15. Nesaf, mae'r cynllun yn disgrifio sut y bydd y cysyniadau a'r egwyddorion hyn yn eu cael eu rhoi ar waith yn ymarferol a systematig i annog newid, sy'n gyson â chyflawni'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a amlinellir yn y cynllun. Yn benodol, mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd y Clystyrau a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn annog datblygu 'modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor'. Rhain fydd y prif gyfrwng ar gyfer cyflwyno modelau gwasanaeth newydd,

sy'n cychwyn yn lleol ac yn cael eu hehangu i lefel ranbarthol ac yna'n genedlaethol. Mae'r cynllun yn ymrwymo pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i nodi a hybu o leiaf dau fodel, a fydd gyda'i gilydd yn darparu gwasanaethau di-dor newydd mewn ystod o leoliadau ar gyfer grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

16. Bydd Rhaglen Drawsnewid newydd yn goruchwylio'r broses o weithredu'r cynllun ac yn atebol amdano, gan gynnwys rheoli'r Gronfa Drawsnewid gwerth £100 miliwn yn 2018-19 a 2019-20. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei dargedu tuag at brosiectau sy'n cael blaenoriaeth ac i gefnogi modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o gyflymu'r gwaith o'u datblygu ac arddangos eu gwerth. Bydd y Gronfa Drawsnewid yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar fodelau dethol sy'n gwneud cynnydd cynnar o ran: cysoni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor; darparu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a sylfaenol yn lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd.

*Sicrhau bod ein system yn barod at y dyfodol*

17. Mae trydedd adran y cynllun yn amlinellau'r ystod eang o gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y capasiti, yr adnoddau a'r angenrheidiol i ddarparu a chynnal y newid disgwyliedig. Mae'r adran yn cynnwys y rhan fwyaf o'r 40 o gamau gweithredu a gynhwysir yn y cynllun, a restrir dan naw maes gwahanol ond sy'n gysylltiedig â'i gilydd gan gynnwys *cyllid iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy; y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol*; ac *arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol*.

18. Dyma rai o'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnwys: ymrwymiad i wella cydlynu'r gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella; cynyddu'r buddsoddiad mewn technolegau digidol a newydd sy'n allweddol ar gyfer newid; cysylltiad parhaus fel bod pawb yn medru mynegi barn parthed llunio ein dull system gyfan; swyddogaeth pwyllgor gweithredol cenedlaethol newydd i gyflymu penderfyniadau a gwneud y system yn fwy ymatebol i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Y Camau Nesaf**

19. Bwriedir rhoi pob un o'r 40 o gamau gweithredu'r cynllun ar waith dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn cynnwys cam gweithredu i gyflwyno trosolwg cenedlaethol o berfformiad cyffredinol y system iechyd a gofal cymdeithasol yn erbyn y Nod Pedwarplyg a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd y tair blynedd. Mae'n bwysig nodi y bydd hwn yn ymdebygu i 'adroddiad cynnydd', a gynlluniwyd i werthuso effaith tair blynedd gyntaf y cynllun hirdymor, a bod yn sail i gamau gweithredu newydd dilynol. Mewn sawl achos bydd y canlyniadau y mae'r cynllun yn anelu at eu cyflawni yn cymryd mwy na tair blynedd i'w gwireddu; er enghraifft, mewn perthynas â'r trawsnewid sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ardaloedd lleol a hynny'n ddi-dor ledled Cymru, mae'r cynllun yn cydnabod bod hyn yn debygol o barhau 'dros y ddegawd nesaf'.

20. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn goruchwylio'r cynllun ac yn atebol am ei weithredu dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r gwaith o sefydlu'r

Rhaglen Drawsnewid, a threfniadau ar gyfer defnyddio'r Cyllid Trawsnewid wedi cychwyn eisoes, a bydd cyfres o gamau pellach yn cael eu cymryd dros y misoedd nesaf.

**Casgliad**

21. Wrth inni ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol, mae'n briodol myfyrio ynghylch gwytnwch a chyflawniadau'r gwasanaethau hyn, a chydnabod gyda balchder eu gwreiddiau Cymreig. Fodd bynnag, fel Llywodraeth rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y dyfodol, ac mae *Cymru Iachach* yn profi ein hymrwymiad i gymryd y camau angenrheidiol, waeth pa mor anodd, i sicrhau bod gennym system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i llunio a'i pharatoi i ymdrin â'r galw sydd i ddod, er mwyn iddi fod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA

dai.lloyd@cynulliad.cymru

3 Gorffennaf 2018

Annwyl Dai

Yn y sesiwn dystiolaeth ar weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 13 Mehefin, addewais roi gwybodaeth ychwanegol ichi am y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar ysgolion bro ar hyn o bryd.

Mae'r grŵp yn ystyried y rhwystrau rhag gallu sicrhau bod cyfleusterau'r ysgolion hyn ar gael i'w defnyddio gan y gymuned ehangach, ac nid dim ond yr ysgol.

Nod cyffredinol y grŵp yw nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen a gwneud argymhellion mewn perthynas â'r canlynol:

- nodi unrhyw rwystrau rhag gweithredu'r camau a bennwyd a sut i'w goresgyn;
- ariannu rhoi'r camau gweithredu ar waith; a
- lledaenu arferion da ynghylch defnydd cymunedol o'r asedau.

Bydd y grŵp yn cefnogi gwaith datblygu canllawiau diwygiedig a fydd yn cynnwys cynnig atebion i rwystrau cyffredin rhag rhoi camau gweithredu ar waith.Rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi yn 2019.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.